

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Ebrill 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, B. Mellor, A. J. Rutherford, W. N. Tasker, T. Thomas a'r Parch. S. F. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

97. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Mrs W. M. Mullen-James (yn sâl), S. H. Ratcliffe (yn sâl), Miss S. L. Roberts (ar wyliau), Miss R. Siddall (ar wyliau), D. Simmons (ymrwymiad arall) a Miss C. L. Williams (yn sâl).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Tony Thomas i'w gyfarfod cyntaf ar ôl ei ethol yn ddiweddar.

Dyweddodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd D. Simmons nawr wedi bod yn absennol o gyfarfodydd am bum mis oherwydd ymrwymadau personol a adroddwyd eisoes.

Dyweddodd, oherwydd canslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 4ydd Mai 2016, y byddai angen i'r Cynghorydd Simmons fynychu cyfarfod y Cyngor a drefnwyd ar gyfer 20fed Ebrill 2016.

Adroddodd Clerc y Dref ymhellach bod y Cynghorydd Simmons nawr wedi ysgrifennu at y Cyngor yn dweud y byddai'r mater personol yn debygol o gymryd peth amser i'w ddatrys ac felly roedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried rhoi cyfnod o oddefeb iddo y tu hwnt i'r cyfnod chwe mis statudol.

PENDERFYNWYD rhoi goddefeb i'r Cynghorydd Simmons am absenoldeb am gyfnod o chwe mis hyd at 6ed Hydref 2016

98. ETHOLIAD WARD PLASTIRION

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion yr is-etholiad a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer Ward Plastirion.

Dyweddodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd Thomas wedi llofnodi'r datganiadau gofynnol.

PENDERFYNWYD cydnabod yr adroddiad.

99. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – CHWEFROR 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Chwefror 2016.

Rhif Talel	Enw'r Cyflenwr	Swm Cyfanswm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
158	Y Cyngh. B Mellor	1,052.91	Lwfans y Maer 3 o 3 2015/16
158	Y Cyngh. S Roberts	277.08	Lwfans y Dirprwy Faer 3 o 3 2015/16
159a	Infotone Imaging Supplies	50.52	Cetrisen Inc ar gyfer Peiriant Ffrancio
160	Sioned Graham-Cameron	272.14	Gwasanaeth Cyfieithu
161	Cyngor Sir Ddinbych	120.00	Cyflenwi a Gosod 2 arwydd ar gylchfan y Tŵr Cloc
162	Cyngor Sir Ddinbych	8,359.92	Cynnal a Chadw Tiroedd y Gerddi Coffa 15/16
163	HSBC	11.63	Taliadau Banc 17eg Rhagfyr 2015 i 16eg Ionawr 2016
026	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	6,050.00	Tâl Gwasanaeth Pedwerydd Chwarter 2015/16
040	Sage & Co	30.00	Ffi Cyflogres Fisol - Chwefror 2016
155	HMRC	2,216.25	Ionawr 2016 Treth ac YG
156	Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint	1,541.49	Cyfraniadau Pensiwn Ionawr 2016
156	Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint	1,991.67	Cyllid Diffyg Mis 10 2015/16
164	Andrew Owen Williams	310.00	Ffioedd Proffesiynol CIPFA 2016 Ad-daliad
165	Canda Copying	368.09	Rhentu a thaliadau copio du a gwyn
166	Canda Copying	247.03	Taliadau copio lliw
167	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,669.71	Cyflogau Staff Chwefror 2016
170	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	1,125.00	Ffi reoli uwch wedi ei hól-ddyddio Tynewydd CC
171	Cyngor Sir Ddinbych	1,260.00	Plannu'r Gaeaf 2015/16
172	Cyngor Sir Ddinbych	15,132.56	Contract Goleuadau 2015/16
173	Cyngor Sir Ddinbych	12,600.00	Cyfraniadau Digwyddiadau – Sioe Awyr, Nadolig a'r Arena
174	Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth	35.00	Ffi Gofrestru Flynyddol, Deddf Diogelu Data
175	NWN Media	172.80	Hysbyseb ar gyfer Is-etholiad Ward Plastirion
	Cyfanswm Taliadau	59,893.80	
	HSBC	35.44	Llog ar Fuddsodiadau Marchnad 7 Diwrnod
	Santander	1.70	Llog ar y Cyfrif Cadw
	HMRC	14,223.49	Ad-daliad TAW Chwarter 3 Hydref i Ragfyr 2015
	Urdd Merched Tref y Rhyl Tynewydd	25.00	Cyfraniad i Gronfa Gala Elusen y Maer
	Cyfanswm Derbyniadau	14,285.63	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

100. PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH

Gofynnodd Clerc y Dref am awdurdod i'r Cyngor Tref Iunio partneriaeth ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Tref Prestatyn a Chyngor Tref Rhuddlan i ddarparu teledu cylch cyfyng yn y Rhyl am gyfnod o flwyddyn yn dechrau ar 1af Ebrill 2016 ac yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Maer a Chlerc y Dref i lofnodi'r cytundeb ar ran y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD YMHELLACH bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

101. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL

Mewn perthynas â chofnod rhif 91, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i benodi Aelod i fynychu cyfarfodydd Grŵp Busnes y Rhyl.

PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd P. Prendergast tan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor.

102. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM

Cyflwynodd Clerc y Dref yn ffurfiol Adroddiad Interim yr Archwiliwr Mewnol (copi wedi ei ddsbarthu gyda'r Rhaglen) ac argymhellodd bod yr Aelodau yn cyfeirio'r ddogfen i'r Is-bwyllgor Asesu Risg i oruchwylio gweithrediad y ddau argymhelliad.

Adroddodd Clerc y Dref ar gefndir yr argymhellion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- rhai taliadau a wnaed gan y Cyngor cyn rhoddwyd awdurdod gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a oedd, yn dechnegol, yn groes o bosibl i Reoliadau Ariannol y Cyngor ac argymhelliad yr Archwiliwr Mewnol y dylid arolygu'r Rheoliadau i sicrhau eglurder.
- nad oedd talebau rhif 69 - 81 wedi eu hawdurdodi'n unigol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ac argymhelliad yr Archwiliwr Mewnol y dylid gwneud hyn. Dywedodd Clerc y Dref, er bod y Cadeirydd wedi gweld a llofnodi Talebau 69 – 81 ar y cyd a'u bod wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yng nghyfarfodydd mis Tachwedd a Chwefror, nid oedd y talebau unigol wedi eu llofnodi ac roedd yr Archwiliwr Mewnol wedi adnabod yr hepgoriad. Dywedodd Clerc y Dref bod y Cadeirydd nawr wedi llofnodi'r Talebau perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Clerc y Dref bod yr Adroddiad Archwilio wedi ei ddarparu gan yr Archwiliwr Mewnol ac yn cynnwys cyfeiriad at argymhellion yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol a'r camau a gymerwyd i ddelio â'r argymhellion hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad Archwilio Mewnol Interim a chyfeirio'r argymhellion ar gyfer 2015/16 i'r Is-bwyllgor Asesu Risg i'w hystyried / gweithredu.

103. EITEMAU GAN YR AELODAU

Hysbysodd y Cynghorydd Ms J. McAlpine y cyfarfod o waith 'Talking Point' a gofynnodd i'r Cyngor awdurdodi cyflwyniad gan y mudiad i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd McAlpine ymhellach bod gwaith y mudiad yn ymwneud ag iechyd a llesiant a'i fod wedi ei beilotio ym Mhrestatyn, ond roedd nawr eisiau ehangu i'r Rhyl.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn trefnu bod y mudiad yn rhoi cyflwyniad i'r Cyngor.*

(Gohiriwyd eitemau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd S. H. Ratcliffe tan y cyfarfod nesaf)

104. YMGYNGHORIAD: SWYDDFA BOST PARC HIGHFIELD

Derbyn gohebiaeth gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig (copi'n amgaeëdig).

PENDERFYNWYD *derbyn a chroesawu'r ohebiaeth a bod Clerc y Dref yn gwneud ymholiadau o ran pa wasanaethau amgen a fyddai'n cael eu darparu yn ystod cyfnod cau'r Swyddfa Bost o ystyried nifer uchel y bobl oedrannus a wasanaethid yno.*

105. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddwyn y cyfarfod i ben.